# Cyfrifiad 2021: Canlyniadau Cyntaf – GWYBODAETH ATODOL

## Crynodeb

Ddydd Mawrth 28 Mehefin 2022, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021, a oedd yn canolbwyntio ar gyfansymiau poblogaeth ardal awdurdodau cenedlaethol a lleol a dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl rhyw a grŵp oedran pum mlynedd (wedi'u talgrynnu). Yn ôl y ffigurau, 238,500 oedd poblogaeth amcangyfrifedig Dinas a Sir Abertawe ar ddiwrnod y Cyfrifiad (ddydd Sul 21 Mawrth 2021).

Amlinellwyd canlyniadau cyntaf 2021 ar gyfer Abertawe mewn nodyn briffio cynharach ar wahân, sydd ar gael yn www.abertawe.gov.uk/Cyfrifiad2021_canlyniadau.

Cyhoeddwyd amrywiaeth o wybodaeth atodol ychwanegol ar yr adeg hon hefyd, ac mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r wybodaeth allweddol sydd ar gael i Abertawe:

- Aelwydydd (gydag o leiaf un preswylydd arferol)
- Dwysedd poblogaeth (nifer y bobl fesul cilomedr sgwâr)
- Elfennau amcangyfrifon Cyfrifiad 2021
- Cyfraddau ymateb
- Adroddiadau cefndir (cysylltiadau â methodoleg Cyfrifiad 2021 y SYG a gwybodaeth arall)
- Ymatebion ar-lein (*sylwer: cyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Hydref 2021)*.

Bydd rhagor o wybodaeth a chanlyniadau manylach o Gyfrifiad 2021, gan gynnwys data ar gyfer ardaloedd lleol (islaw lefel awdurdod lleol) ac ystadegau nodweddion poblogaeth leol, yn rhan o gamau rhyddhau data'r Cyfrifiad yn y dyfodol sy'n dechrau ym mis Tachwedd 2022. Yn nes ymlaen eleni, caiff yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2021 - y cyntaf i fod yn seiliedig ar ganlyniadau diweddaraf y Cyfrifiad - hefyd eu cyhoeddi gan y SYG, a disgwylir i'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2012 i 2020 gael eu hadolygu (gan ddefnyddio data cyfrifiad 2021) yn gynnar yn 2023.

## Aelwydydd

Darparodd canlyniadau'r Cyfrifiad cyntaf amcangyfrifon lefel awdurdod lleol wedi'u talgrynnu o nifer yr aelwydydd (gydag o leiaf un preswylydd arferol). Yn y Cyfrifiad, diffinnir aelwyd fel *'un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyni'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta'.*

Amcangyfrifwyd bod 1,347,100 o aelwydydd yng Nghymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef cynnydd o 3.4% (44,400) ar gyfanswm 2011 (1,302,676 o aelwydydd). Mae'r gyfradd twf hon yn is na'r gyfradd twf rhwng 2001 a 2011 yng Nghymru, pan tyfodd nifer yr aelwydydd 7.7%.

Amcangyfrifwyd bod 105,000 o aelwydydd yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2021, sef 7.8% o gyfanswm Cymru, a'r ail ffigur uchaf yng Nghymru (tu ôl i Gaerdydd). Mae hyn tua 4,700 o aelwydydd yn is na'r ffigur blaenorol a adroddwyd ar gyfer Abertawe (yr amcangyfrif cyn y cyfrifiad diwethaf gan Lywodraeth Cymru o ganol 2020) ond 1.5% yn uwch na ffigur Cyfrifiad 2011, sef 103,500.

## Dwysedd poblogaeth

Mae dwysedd poblogaeth wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf. Mae'n rhoi amcangyfrif o nifer y preswylwyr arferol fesul cilomedr sgwâr. Ar gyfartaledd roedd 150 o breswylwyr fesul cilomedr sgwâr yng Nghymru yn 2021, sydd ychydig yn uwch na'r ffigur o 148 yn 2011. Mae dwysedd poblogaeth Cymru dipyn yn is nag yn Lloegr, lle'r oedd 434 o breswylwyr fesul cilomedr sgwâr.

Yn Abertawe roedd 632 o breswylwyr arferol fesul cilomedr sgwâr yn 2021, y pumed uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru - tu ôl i Gaerdydd (2,572), Casnewydd, Torfaen a Chaerffili –Powys (26) yw'r ardal leiaf poblog yng Nghymru. Dangosodd ffigur Cyfrifiad 2021 ar gyfer Abertawe newid o -0.2% ers Cyfrifiad 2011 (633 o breswylwyr arferol fesul cilomedr sgwâr), gan adlewyrchu'r gostyngiad bach yng nghyfanswm y boblogaeth.

## Elfennau amcangyfrifon Cyfrifiad 2021

Roedd yr wybodaeth atodol a gyhoeddwyd gan y SYG gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad cyntaf yn cynnwys offeryn cymharu awdurdodau lleol. Mae taflen waith 01 (Cymharu mesurau) yn dangos cyfraniad yr elfennau amcangyfrif gwahanol tuag at yr amcangyfrifon cyfrifiad terfynol a gyhoeddwyd ar gyfer Abertawe, gyda ffigurau Cymru a Chymru a Lloegr wedi'u hychwanegu i'w cymharu. Er bod mwyafrif yr amcangyfrifon yn cynnwys pobl a ymatebodd i'r cyfrifiad, gwneir addasiadau pellach i adlewyrchu pobl a fethwyd (neu bobl sydd wedi'u cyfri fwy nag unwaith) yn y cyfrifiad, fel bod amcangyfrifon yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan.

Ychwanegodd y gwahanol brosesau addasu bron i 10,000 (net) at gyfrif cychwynnol y Cyfrifiad o breswylwyr Abertawe (o holiaduron a ddychwelwyd), fel y'i crynhowyd yn Nhabl 1. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn yr adran 'Nodiadau a diffiniadau' isod.

**Tabl 1: Elfennau amcangyfrif y cyfrifiad o breswylwyr arferol**

| Ardal | **Abertawe** | Cymru | L & C |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif y cyfrifiad o breswylwyr arferol | 238,500 | 3,107,500 | 59,597,300 |
| *sy'n cynnwys:* | | | |
| Cyfrifiad o'r preswylwyr arferol | 229,000 | 2,994,600 | 57,788,000 |
| **Addasiad ar gyfer**: tangwmpasu mewn aelwydydd | +9,700 | +126,300 | +2,137,500 |
| gorgwmpasu mewn aelwydydd | -2,700 | -32,900 | -596,200 |
| tangwmpasu mewn sefydliadau cymunedol | +1,500 | +13,300 | +221,800 |
| Addasiadau lleol eraill | +1,000 | +6,200 | +46,300 |

**Ffynhonnell**: Offeryn cymharu awdurdodau lleol Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol. ©Hawlfraint y Goron 2022.

**Nodiadau a diffiniadau**:

i. Cyfrifiad o breswylwyr arferol: y rheini sydd wedi ymateb i'r cyfrifiad.
ii. Addasiad ar gyfer tangwmpasu mewn aelwydydd: nid yw rhai pobl yn cael eu cofnodi ar holiadur y cyfrifiad. Mae'r SYG yn amcangyfrif nifer y bobl sydd wedi cael eu tangwmpasu ac yn eu hychwanegu at yr amcangyfrifon. Mae'r rhan hon o'r addasiad tangwmpasu yn ymwneud â phobl sy'n byw mewn aelwydydd.
iii. Addasiad ar gyfer gorgwmpasu mewn aelwydydd: caiff rhai pobl eu cofnodi ar y cyfrifiad fwy nag unwaith (er enghraifft drwy gael eu cofnodi fel preswylydd arferol mewn dau gyfeiriad). Mae'r SYG yn amcangyfrif nifer y bobl sydd wedi cael eu gorgwmpasu yn y modd hwn ac yn eu tynnu o'r amcangyfrifon.
iv. Addasiad ar gyfer tangwmpasu mewn sefydliadau cymunedol: Dyma brif ran arall yr addasiad ar gyfer tangwmpasu ac mae'n ymwneud ag unrhyw dangwmpasu o'r boblogaeth mewn sefydliadau cymunedol.
v. Addasiadau lleol eraill: Mae rhai addasiadau cyfyngedig wedi'u rhoi ar waith mewn awdurdodau lleol penodol lle bu tystiolaeth dda bod angen gwneud mân addasiadau i ddulliau safonol y cyfrifiad
vi. Gall ffigurau amrywio ychydig yng nghyhoeddiadau'r dyfodol oherwydd yr effaith o beidio â thalgrynnu a defnyddio prosesau ystadegol pellach.
vii. Mae manylion y prosesau addasu ac agweddau eraill ar y fethodoleg ar gael yn yr adran 'Adroddiadau cefndir'.

Roedd y daflen waith hefyd yn cynnwys ffigurau Treth y Cyngor ar gyfer aelwydydd sydd wedi'u meddiannu ochr yn ochr ag amcangyfrifon cyhoeddedig y cyfrifiad o aelwydydd. Cynhyrchwyd ffigurau Treth y Cyngor ar gyfer 'aelwydydd sydd wedi'u meddiannu' trwy

gymryd cyfrifon Treth y Cyngor cyhoeddedig 2021 o 'anheddau trethadwy' - fel y darperir (yng Nghymru) gan Lywodraeth Cymru drwy StatsCymru – a chael gwared ar gyfrifon cyfeiriadau a restrir fel rhai gwag neu fel ail gartrefi, ac ychwanegu cyfeiriadau eithriedig y gallant fod wedi eu meddiannu (er enghraifft, HMOau myfyrwyr).

Y ffigur Treth y Cyngor ar gyfer aelwydydd sydd wedi'u meddiannu sy'n cael ei ddangos ar gyfer Abertawe yw 107,700, sy'n uwch nag amcangyfrif y cyfrifiad o 105,000. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn effeithio ar gymariaethau uniongyrchol:

- rheolau ynghylch eithriadau a gostyngiadau (e.e. ar gyfer ail gartrefi) sy'n amrywio ym mhob ALl;
- Cofnodion Treth y Cyngor a'r Cyfrifiad yn cyfrif ystafelloedd unigol mewn sefydliad cymunedol (e.e. neuaddau myfyrwyr) yn wahanol;
- efallai nad yw 'annedd wedi'i meddiannu' ar gofnodion Treth y Cyngor yn adlewyrchu mai man preswyl arferol rhywun yw'r cyfeiriad yn ôl diffiniad y cyfrifiad;
- mae gan y data Treth y Cyngor 'ddyddiad cyfeirio' gwahanol (mis Hydref i fis Rhagfyr 2021 yng Nghymru), felly ni fyddai'n adlewyrchu newidiadau rhwng Diwrnod y Cyfrifiad a'r dyddiad hwnnw.

## Cyfraddau ymateb

Cyfrifir y gyfradd ymateb fel cyfrif y cyfrifiad ar gyfer ardal neu grŵp wedi'i rannu ag amcangyfrif terfynol y cyfrifiad. Darperir cyfraddau ymateb i ddechrau ar gyfer preswylwyr arferol ac (yn genedlaethol) ar gyfer aelwydydd. Mae'n wahanol i'r gyfradd ddychwelyd (nid yw'r wybodaeth ar gael eto), sy'n ymwneud â chyfran yr holiaduron Cyfrifiad a ddychwelwyd.

Un o brif dargedau'r SYG ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd sicrhau ymateb o 94% ar gyfer Cymru a Lloegr (CaLl) yn gyffredinol, ac o leiaf 80% ym mhob ardal awdurdod lleol. Y gyfradd ymateb gyffredinol ar gyfer preswylwyr arferol yn Abertawe ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd 96%, sy'n uwch na'r gyfradd yn 2011 (92%). Cafwyd gwelliannau tebyg mewn cyfraddau ymateb rhwng Cyfrifiadau yng Nghymru (2011: 93%; 2021: 96%) a Chymru a Lloegr (cynnydd o 94% i 97%).

Yn Abertawe, cyfanswm y Cyfrifiad (pob person) oedd 229,000 (wedi'i dalgrynnu), ac o'i fynegi fel cyfran o gyfanswm amcangyfrif Cyfrifiad 2021 (238,500, wedi'i dalgrynnu) mae'n cyfleu'r gyfradd ymateb gyffredinol o 96%.

Cyhoeddir cyfraddau ymateb hefyd yn ôl oedran (grŵp 5 mlynedd). Yn Abertawe, cofnodwyd y gyfradd ymateb uchaf (98%) ar draws pob grŵp oedran 55-89, gyda'r ymateb isaf ymhlith y grŵp 15-19 oed (92%) wedi'i ddilyn gan y rheini rhwng 0-4 oed a 20-24 oed (93% yr un).

Roedd y bwlch mwyaf sylweddol, yn nhermau rhifol, rhwng cyfrif Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrif y Cyfrifiad yn Abertawe ar gyfer yr ystod oedran 15-24 oed; sef cyfanswm o 2,500 o bobl (wedi'i dalgrynnu).

## Adroddiadau cefndir

Mae'r SYG wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ychwanegol sy'n nodi'r canlyniadau cychwynnol ac agweddau gwahanol ar gefndir, methodoleg a phrosesau Cyfrifiad 2021:

*Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021* (bwletin ystadegol): mae'n cynnwys amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd wedi'u talgrynnu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda sylwebaeth gychwynnol. Cyhoeddwyd bwletin cyfatebol ar gyfer 'Cymru a Lloegr' hefyd.

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021

*Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg (GAM) ar gyfer Cyfrifiad 2021* (adroddiad): yn rhoi manylion am gryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau, defnyddwyr a'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr.

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/methodologies/qualityandmethodologyinformationqmiforcensus2021

*Mwyafu ansawdd amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021* (papur methodoleg): sut gwnaeth y SYG fwyafu ansawdd amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 wrth brosesu a sicrhau ansawdd yr ystadegau terfynol.

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/methodologies/maximisingthequalityofcensus2021populationestimates

*Coronafeirws a'r effaith weithredol ar Gyfrifiad 2021* (erthygl mis Hydref 2020): dangos effeithiau posib pandemig y Coronafeirws (COVID-19) ar y cynlluniau gweithredol ar gyfer Cyfrifiad 2021 a'r newidiadau dylunio a'r cynlluniau wrth gefn a wnaed mewn ymateb i hyn.

https://cy.ons.gov.uk/census/planningforcensus2021/censusdesign/coronavirusandtheoperationalimpactoncensus2021

Caiff adroddiadau methodoleg a gwybodaeth bellach eu cyhoeddi gan y SYG yn ddiweddarach yn 2022.

## Ymatebion ar-lein

Nododd adroddiad cynharach y SYG, Dylunio cyfrifiad digidol yn gyntaf (mis Hydref 2021) fod 88.9% o'r aelwydydd yng Nghymru a Lloegr wedi ymateb ar-lein i Gyfrifiad 2021, sy'n uwch na tharged SYG o 75%.

Roedd y dull cyswllt cychwynnol (boed hynny'n holiadur papur neu lythyr â chod mynediad) yn dylanwadu'n gryf ar ddewis pobl i ymateb ar-lein neu ar bapur. Anfonwyd llythyr at 89.0% o'r holl aelwydydd yng Nghymru a Lloegr gyda chôd mynediad (gyda holiaduron papur ar gael ar gais); o'r rheini, cwblhaodd 94.2% eu cyfrifiad ar-lein a 5.8% eu cyfrifiad ar bapur. O'r 11.0% o aelwydydd yr anfonwyd holiaduron papur atynt (gan gynnwys côd mynediad i ymateb ar-lein), fe wnaeth 46.4% ei gwblhau ar-lein.

Yn 2021, roedd cyfran gyffredinol y dychweliadau a gyflwynwyd ar-lein yn is yng Nghymru (68%) na Lloegr (90%). Mae'n debygol bod hyn oherwydd mae gan Gymru ganran uwch o aelwydydd lle gwnaed y cyswllt cychwynnol gyda holiadur papur yn hytrach na chôd mynediad ar-lein (50% yng Nghymru o gymharu â 9% yn Lloegr) - a hynny yn bennaf oherwydd mae gan Gymru fwy o ardaloedd lle'r oedd y SYG yn rhagweld y byddai nifer y bobl a fyddai'n dewis ar-lein yn is.

Yn Abertawe, roedd 43% o aelwydydd yn 2021 yn dewis papur yn gyntaf (sy'n is na chyfartaledd Cymru o 50%). Dyma ffigyrau Abertawe ar gyfer cyfran yr ymatebion ar-lein yn 2021:

- Papur yn gyntaf – wedi ymateb ar-lein: 44% (Cymru 42%)
- Digidol yn gyntaf – wedi ymateb ar-lein: 93% (9fed uchaf o ALlau Cymru, cyfartaledd o 93%).

Mae rhagor o wybodaeth gefndir, ynghyd â ffigurau ardaloedd bach (y gyfran ar-lein o ymatebion aelwydydd fesul Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is), ar gael trwy'r ddolen isod:

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/designingadigitalfirstcensus/2021-10-04

Gellir gwneud cymariaethau â Chyfrifiad 2011, a oedd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwblhau eu holiadur ar-lein am y tro cyntaf. 15.0% yn unig oedd y gyfradd ymateb ar-lein yn Abertawe yn 2011 (Cymru 13.4%; Cymru a Lloegr 16%), sy'n dangos faint mae'r agwedd hon ar gymdeithas wedi newid ers y Cyfrifiad blaenorol.

## Casgliadau

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi elfennau mwy sylweddol yr wybodaeth ychwanegol a ryddhawyd gan y SYG ochr yn ochr ag amcangyfrifon poblogaeth gyntaf Cyfrifiad 2021 ym mis Mehefin 2022 (ac yn gynharach).  Disgwylir rhagor o wybodaeth am fethodoleg y Cyfrifiad maes o law.

Disgwylir i ganlyniadau manylach o Gyfrifiad 2021, gan gynnwys ystadegau ar gyfer ardaloedd lleol (islaw lefel awdurdodau lleol) a rhagor o wybodaeth am nodweddion poblogaeth leol, gael eu cyhoeddi fesul cam gan ddechrau ym mis Tachwedd 2022 a chan barhau tan 2023.

*Mis Hydref 2022*

*Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol am y Cyfrifiad, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynghylch newid mewn poblogaeth a newid demograffeg yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol**
Ffôn: 07970 610583.  Ebost: ymchwil@abertawe.gov.uk

Uned Cyflwyno Strategol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.